# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o’r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YNN, Dydd Mawrth, 7 Gorffennaf 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Jeanette Chamberlain-Jones, Ann Davies (Is-Gadeirydd), Richard Davies, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Bob Murray, Peter Owen, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth y Gyfraith, AD a’r Gwasanaethau Democrataidd (GW), Prif Swyddog Cyllid, Pennaeth Priffyrdd a’r Gwasanaethau Amgylcheddol (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Brian Blakeley, Joan Butterfield, Bill Cowie, Meirick Davies, Carys Guy, Hugh Irving, Win Mullen-James a/ac Dewi Owens

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

Yn y fan hon, hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai cyfarfod anffurfiol yn cael ei gynnal ynghylch Cludiant Ysgol yn dilyn cyfarfod y Cyngor.

Rhoddodd y Cadeirydd longyfarchiadau i Blas Brondyffryn am eu gwobr a diolchodd hefyd i’r Urdd yn Sir Ddinbych am eu llwyddiant yng Nghaerffili.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

Yn y fan hon, mynegodd y Cynghorydd Jason McLellan ei siom am y ffaith nad oedd BIPBC wedi’i gynnwys ar y Rhaglen fel a ddangoswyd ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol o’r blaen. Nid oedd diwygio Llywodraeth Leol wedi'i gynnwys ar gyfer trafodaeth chwaith. Mynegodd y Cynghorydd McLellan hefyd ei anfodlonrwydd fod yr eitem ar y Gyllideb i'w thrafod y diwrnod cyn cyhoeddiad y Gyllideb gan y Llywodraeth.

Eglurodd y Cadeirydd wrth y Cynghorydd McLellan y gallai fod wedi codi'r materion cyn y cyfarfod gyda naill ai’r Prif Weithredwr neu'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd.

Mynegodd y Cynghorwyr Stuart Davies ac Arwel Roberts eu bod yn cytuno â datganiad y Cynghorydd McLellan.

Eglurodd yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant a'r Prif Weithredwr y sefyllfa o ran BIPBC. Eglurwyd bod Prif Weithredwr BIPBC, Trevor Purt, wedi cysylltu â Sir Ddinbych i fynychu cyfarfod o'r Cyngor ond oherwydd ei fod wedi’i atal dros dro o’i waith yn ddiweddar, nid oedd y Swyddog Cyfrifol Dros Dro (ARO) yn ymwybodol o'r ymrwymiad hwn. Roedd cyfarfod Bwrdd CIC wedi ei gynnal y bore yma a byddai gofyn i'r ARO fod yn bresennol. Roedd dyddiad 8 Medi 2015 wedi ei awgrymu i'r ARO ond nid oedd ymateb wedi dod eto. Cytunodd yr Aelodau pe byddai'r ARO yn methu bod yn bresennol ar 8 Medi, yna dylid cynnal cyfarfod arbennig ar ddyddiad cyfleus i’r ARO.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd y diwrnod cyn y Cyngor yn cael ei drafod yng nghyfarfod Arweinwyr Grwpiau yr wythnos nesaf ac y byddai'r ymateb yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn.

Byddai'r drafodaeth ynglŷn ag ad-drefnu Llywodraeth Leol yn cael ei drafod yn dilyn yr etholiad yn 2016 oherwydd mai dyfalu oedd yn digwydd ar hyn o bryd.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 14.05.2015 a 28.06.2014 wedi’i dosbarthu cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Mai 2015.

Eitem 5, Tudalen 11, roedd enw’r Cynghorydd Huw Jones wedi ei sillafu'n anghywir. Ymddiheurwyd i'r Cynghorydd Jones.

Dywedodd y Cynghorydd Alice Jones ynghylch eitem 7, Tudalen 13 - Cynlluniau Tref, yn y cofnodion roedd wedi nodi “Eglurwyd bod fersiwn drafft o Gynllun Tref Bodelwyddan yn derbyn sylw”. Gofynnwyd y cwestiwn “pam oedd tref Bodelwyddan wedi’i gadael allan” a'r ateb a roddwyd yn ystod y cyfarfod, gan y Prif Weithredwr oedd “nid oedd y Cynllun Tref wedi cael sylw ar yr un adeg â'r lleill yn y sir. Teimlwyd y byddai'n well gadael Bodelwyddan allan nes bod mater y CDLl wedi ei ddatrys”. Gofynnodd y Cynghorydd Jones bod y cofnodion yn cael eu diwygio.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill fod y frawddeg yn y cofnodion wedi’i dweud yn y cyfarfod gan y Prif Weithredwr, y Pennaeth Gwella Busnes a

Moderneiddio ac ef ei hun, ond roedd y datganiad a ddarllenwyd allan gan y Cynghorydd Jones wedi'i dweud hefyd yn ystod y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai 2015 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

**6 CYLLIDEB 2016/17**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson Hill, yr Adroddiad Cyllideb (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu diweddariad ar y broses i ddarparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17 ac i nodi cyfnod nesaf y cynigion ar gyfer y gyllideb.

Roedd yr aelodau yn ymwybodol o'r broses gyllideb barhaus. Roedd 3 gweithdy cyllideb ychwanegol wedi digwydd. Roedd y ddau weithdy cyntaf wedi ymdrin ag eitemau a oedd wedi'u gohirio neu wedi eu cadw am wybodaeth ychwanegol. Yn y gweithdy a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2015, hysbyswyd yr aelodau o'r tybiaethau allweddol o fewn cynlluniau tymor canolig y cyngor - yn benodol, roeddent yn amlinellu'r ansicrwydd ynghylch lefel setliadau Grant Cynnal Refeniw y dyfodol.

Roedd gweithdai eraill ynglŷn â'r gyllideb wedi'u trefnu ar gyfer 26 Hydref a 14 Rhagfyr 2015. Wrth i'r broses ar gyfer 2016/17 gael ei datblygu, mae'n debygol y bydd yn angenrheidiol i drefnu mwy o weithdai yn ystod yr hydref.

Roedd lefel sylweddol o ansicrwydd yn dal i bodoli o ran y Setliad Llywodraeth Leol tebygol ar gyfer 2016/17 ac roedd hyn yn debygol o barhau dros y misoedd nesaf. Tan fis Mai 2013, roedd gwerth y Setliadau yn gymharol gyson â'r arwyddion blaengynllunio a gyhoeddwyd yn genedlaethol yn 2011. Ers hynny ni fu unrhyw setliad aml-flwyddyn ac roedd arwyddion wedi newid yn gyson rhwng ac o fewn blynyddoedd ariannol. Yn absenoldeb gwybodaeth fwy dibynadwy am y Setliad, roedd angen i gynlluniau'r gyllideb barhau i ddatblygu cynigion i gwmpasu amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd. Byddai'r Setliad Drafft ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi ddechrau mis Hydref.

Roedd aelodau wedi cael cais i gyflwyno eu cynigion eu hunain fel rhan o'r broses ac roedd ffurflen wedi'i rhagnodi wedi ei chyhoeddi ar gyfer y diben hwn. Nod cynnig a gyflwynwyd gan yr aelodau yn y gweithdy ar 5 Mehefin fyddai rhoi'r gorau i dalu costau teithio i aelodau a oedd yn mynychu cyfarfodydd fel sylwedyddion. Amcangyfrifwyd y gallai'r cynnig hwn arbed hyd at £900 y flwyddyn.

Nod y broses gyllidebol oedd sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Roedd yn parhau'n broses anodd gyda rhai penderfyniadau anodd i'w gwneud ar hyd y ffordd. Roedd ymrwymiad a chefnogaeth aelodau etholedig yn y broses o wneud penderfyniadau ac archwilio'r broses yn hanfodol.

Cynhaliwyd trafodaeth fanwl a thrafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegodd y Cynghorydd Colin Hughes bryder ynghylch darpar doriadau. Cododd y broses o gau Aberchwiler fel enghraifft. Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd wedi bod yn ymwybodol o unrhyw ddefnyddiwr

gwasanaeth unigol nad oedd wedi cael lleoliad yn dilyn cau Aberchwiler. Roedd yr holl bobl ddiamddiffyn wedi eu gosod o fewn amgylcheddau gwaith newydd. Eglurodd y Cynghorydd Richard Davies fod trafodaeth fanwl a oedd wedi para dros 2 ½ awr wedi digwydd yn y pwyllgor Archwilio Perfformiad Arbennig a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2015.

- Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod cyllidebau cytbwys wedi eu gosod. Roedd 72% o doriadau a gytunwyd ar gyfer y flwyddyn hon eisoes wedi eu rhoi ar waith.
- Gofynnodd yr Aelodau fod cynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymuned yn bresennol yn y cyfarfod ynghyd â Swyddog Cyfrifol Dros Dro BIPBC i alluogi cwestiynau a godwyd gan yr aelodau i gael ymateb manwl, gan y cynrychiolwyr Iechyd a oedd yn bresennol.

Yn y fan hon (11.00 a.m.) roedd munud o dawelwch i gofio dioddefwyr y bomiau yn Llundain 10 mlynedd yn ôl.

Parhaodd y drafodaeth a thrafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cadarnhaodd y Cynghorydd Colin Hughes i'r aelodau nad oedd yn bwriadu hawlio treuliau ar gyfer unrhyw gyfarfodydd y byddai'n eu mynychu yn y dyfodol.
- Gofynnodd yr aelodau fod cofnodion gweithdai'r gyllideb i gofnodi canlyniadau trafodaethau ar gael. Cadarnhawyd y byddai Pwyntiau Gweithredu Symud Ymlaen yn cael eu dosbarthu i'r aelodau yn dilyn Gweithdai'r Gyllideb.
- Roedd Grŵp Tasg a Gorffen Archwilio wedi ei sefydlu'n ddiweddar i asesu effaith y toriadau yn y gyllideb y cytunwyd arnynt eisoes. Gofynnodd nifer o aelodau i breswylwyr gysylltu â nhw i ddangos tystiolaeth o effaith y toriadau yn y gyllideb. Byddai Aelodau, ar ôl derbyn y dystiolaeth, yn cyflwyno'r wybodaeth i'r Grŵp Tasg a Gorffen ar gyfer asesiad.
- Gofynnwyd bod rheoli gwastraff, newidiadau i arferion gwaith yn cael eu hegluro hefyd. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol fod newidiadau gweithredol a oedd o ganlyniad i'r gwastraff gwyrdd. Gallai olygu y gallai canran fach o gartrefi weld dyddiau casglu eu gwastraff gwyrdd yn newid. Roedd diswyddiadau gorfodol wedi eu hosgoi ac roedd gweithredwyr gwastraff yn cael eu recriwtio. Byddai hyn yn stori newyddion dda.
- Eglurodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans pe na bai cyllideb gytbwys wedi ei chyflwyno gan y Cyngor, yna byddai wedi ei chyflwyno gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran y Cyngor. Roedd angen sicrhau preswylwyr bod y cyngor yn cymryd golwg difrifol o sefyllfa'r gyllideb ac y byddai'n cymryd eu pryderon i ystyriaeth. Er gwaethaf yr holl doriadau a safbwyntiau negyddol, mae'r cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Cytunwyd i fuddsoddi £800 miliwn yn y cymunedau ac i ddangos cefnogaeth i'r cymunedau.

Cynigiodd y Cynghorydd Stuart Davies yr argymhelliad, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Martyn Holland.

Pleidleisiodd yr Aelodau ar argymhellion yr adroddiad - nodi'r cynigion arbedion Cam 4 a restrir yn Nhabl 1 a chymeradwyo'r cynigion a restrir yn Nhabl 2:

23 pleidlais o blaid, 9 yn erbyn a 2 yn ymatal.

Pleidleisiodd yr Aelodau hefyd ar argymhellion yr adroddiad - cymeradwyo'r cynnig a gyflwynwyd gan yr aelodau i beidio â thalu treuliau i aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd fel sylwedyddion:

26 pleidlais o blaid, 4 yn erbyn ac 1 yn ymatal.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cytuno i:*

- *Nodi'r cynigion arbedion Cam 4 a restrir yn Nhabl 1 a chymeradwyo'r cynigion a restrir yn Nhabl 2:*
- *Cymeradwyo'r cynnig a gyflwynwyd gan yr aelodau i beidio â thalu treuliau i aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd fel sylwedyddion:*

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai gwahoddiad yn cael ei anfon at Fwrdd PBC i fynychu cyfarfod y Cyngor sydd i'w gynnal ar 8 Medi 2015. Os na fyddai PBC yn gallu bod yn bresennol, gofynnodd y Prif Weithredwr i'r aelodau a fyddent am i'r eitem PBC gael ei hychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer 8 Medi i alluogi trafodaeth.

Cytunodd yr Aelodau y byddai'n bwysig i aelod o PBC fod yn bresennol ar 8 Medi ac os oedd y dyddiad yn anghyfleus iddynt, yna dylai cyfarfod arbennig o'r cyngor gael ei drefnu ar ddyddiad cyfleus i'r Swyddog Cyfrifol Dros Dro.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40 a.m.